**<u>Cofnodion y pumed cyfarfod a deugain o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd</u>**
Ystafelloedd Gynadledda C&D, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA
Dydd Mercher 17 Mai 2017
6:00pm

**Aelodau Cynulliad yn bresennol:**

Nick Ramsay AC (Ceidwadwyr Cymreig, Mynwy) Cadeirydd

**Yn bresennol:**

Andrew Stumpf – Glandŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru - Ysgrifenyddiaeth
Emily Lewis – Glandŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru - Ysgrifenyddiaeth
John Dodwell, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a Partneriaeth Camlas Maldwyn
Bernard Illman – MBACT
Richard Dommett – MBACT
Monica Dommett – MBACT
Richard Dearing – Cyfoeth Naturiol Cymru
Steve Morgan – Cyfoeth Naturiol Cymru
Alan Platt – IWA
Michael Limbrey – Ymddiriedolaeth Adfer Camlas Maldwyn
Martin Buckle – BBS
Gareth Williams – CITB
Robert Moreland – Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
Peter Hindley – MBACT
Wendy Dodds – Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gareth Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Jeremy Frost – Llywodraeth Cymru
David Morgan – Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
Anthony Pugh – IWA
Nick Worthington – Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
Gail Devine – Groundwork Wales
Ray Alexander – IWA
Roger Holmes – IWA

*****

Dechreuodd y cyfarfod am 6:20pm

Dechreuodd Andrew Stumpf drwy groesawu pawb i'r grŵp a chyflwyno'r fideo 'How Water Adds Value' ('Sut Mae Dŵr yn Ychwanegu Gwerth'). Yn y fideo cafwyd trosolwg o sut y gall gwaith adfer dyfrffyrdd ychwanegu gwerth at eiddo, cynhyrchu swyddi a chynyddu cyfleoedd i fusnesau, gan hefyd reoli'r amgylchedd ac annog bioamrywiaeth. Trafodwyd dylanwad cadarnhaol gwirfoddolwyr hefyd.

'How water adds value' ('Sut mae dŵr yn ychwanegu gwerth') gan yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd: [https://youtu.be/dg0B_2v-bLk](https://youtu.be/dg0B_2v-bLk)

**Eitem 1: Cyflwyniad: Rôl cymunedau a Chronfa Dreftadaeth y Loteri yn hyrwyddo gwaith adfer Camlas Maldwyn – John Dodwell, Cadeirydd, Partneriaeth Adfer Camlas Maldwyn ac Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**

Rhoddodd John Dodwell gyflwyniad yn amlinellu cynnydd gwaith adfer Camlas Maldwyn yn ystor yr hanner can mlynedd diwethaf, ac ymhelaethodd ar y strategaeth adfer deng mlynedd gyfredol a'r effeithiau cadarnhaol a welir yn lleol ac yng Nghymru yn gyffredinol.

Dechreuodd y cyflwyniad gyda disgrifiad o darddiad y prosiect adfer yn yr 1960au, pan lwyddodd gwirfoddolwyr i adfywio ac i ail-ddyfrio rhan o'r gamlas dros gyfnod o benwythnos, fel ymateb i'r bygythiad o adeiladu ffordd osgoi dros y gamlas.

Pwysleisiodd y siaradwr botensial Camlas Maldwyn ar gyfer economi Cymru, gan nodi bod tua 20% o gynnyrch domestig gros Cymru yn dod o dwristiaeth. Nodwyd hefyd bwysigrwydd buddsoddiad Teithio Llesol yn y llwybrau tynnu.

Ym Mhowys, amcangyfrifwyd y bydd Camlas Maldwyn, unwaith y bydd wedi'i hadfer, yn cynhyrchu £5m o wariant gan ymwelwyr y flwyddyn ac yn darparu 128 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd ar y ddyfrffordd yn y blynyddoedd diwethaf, fel Gŵyl y Trallwng, triathlon a'r 'dinghy dawdle' blynyddol wedi denu pobl o bob cwr o'r DU, gan roi hwb i'r diwydiant twristiaeth lleol. Yn ffurfio 'coridor twristiaeth', mae dyfrffyrdd wedi'u hadfer, fel yr un hon, yn gallu dod yn gatalyddion ar gyfer adfywio ehangach yn yr ardal, gydag adeiladau cyfagos fel melinau yn aml yn dod yn atyniadau ynddynt eu hunain.

Mae'r gamlas hefyd yn cael ei defnyddio gan Ymddiriedolaeth Heulwen, elusen sy'n cynnig teithiau cychod ar gyfer ymwelwyr anabl, yn caniatáu i amrywiaeth mwy eang o bobl fwynhau'r gamlas.

Amlygwyd y posibilrwydd o uno cymunedau drwy waith adfer. Nodwyd bod gwaith adfer Loc Freestone wedi manteisio ar lawer o bŵer gwirfoddolwyr, yn ogystal â chydweithio â grwpiau lleol a Chadwch Gymru'n Daclus.

Mae Cyngor Tref y Trallwng yn cynnwys y gamlas yn ei gynllun tref. Canfu Cyngor Tref y Drenewydd hefyd fod y gamlas yn un o'r pum eitem uchaf yr awgrymwyd mewn ymgynghoriadau y dylid canolbwyntio arnynt.

Rhoddwyd grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri (y Gronfa) ar gyfer y gwaith adfer, a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer carthu, gwaith ar 6km o lwybrau tynnu a chloddiau terfyn, ehangu'r rhan fordwyol o'r gamlas ac ymestyn gwarchodfeydd natur Aston. Priodolwyd llwyddiant y cais am arian y Gronfa i'r canlynol:

- Ymrwymiad lleol – sgoriodd y cais yn uchel ar gyfer cyfranogiad, gan fod brwdfrydedd a chefnogaeth y bobl leol yn amlwg o'r arolygon a gynhaliwyd gyda dros 3,000 o bobl;
- Cynnwys y gwaith adfer ar agendâu cynghorau tref a sir;
- Natur amlochrog y cais, a oedd yn ystyried y gamlas yn adnodd cymunedol;
- Dylanwad gwirfoddol sylweddol – bydd y gwaith llafurddwys yn gweld gwerth £300,000 o ymdrech gwirfoddol yn mynd i mewn i'r prosiect, gan leihau'r gwariant ar

gontractwyr yn aruthrol. Yn y dyfodol, gall cynllun hyfforddi adeiladwyr a'r cynllun gwneud iawn â'r gymuned gadw costau mor isel â phosibl;

- Gweithio gyda'r cynghorau tref a sir i roi'r gamlas yn uwch ar yr agenda.

Nid oes gan Gamlas Maldwyn unrhyw draphontydd dŵr na thwneli costus, ac mae ffynhonnell y cyflenwad dŵr yn hysbys. Yn ogystal, yr Ymddiriedolaeth sy'n berchen ar y gamlas, ar wahân i ddwy filltir yn y Drenewydd. Golyga hyn y bydd y gwaith adfer yn weddol syml gyda'r swm digonol o arian, o gymharu â phrosiectau adfer eraill heb y nodweddion hynny. Ochr yn ochr â chyllid y Gronfa, mae Partneriaeth Camlas Maldwyn wedi lansio apêl gyhoeddus i godi £250,000, sydd eisoes wedi gweld cynnydd gwych.

Un rhwystr yw'r ffyrdd, sydd mewn mannau wedi dinistrio rhannau bach o'r gamlas yn gyfan gwbl. Gall peirianwyr gwirfoddol fynd at awdurdodau'r priffyrdd i ddod o hyd i atebion priodol.

**Ystadegau Allweddol:**

- Amcangyfrifir y bydd Camlas Maldwyn ym Mhowys werth £5m o wariant gan ymwelwyr y flwyddyn ac yn darparu 128 o swyddi cyfwerth ag amser llawn pan fydd yn ailagor.
- £8-10 miliwn dros bum mlynedd i adfer y gamlas ym Mhowys
- £2.5 miliwn o gyllid y Gronfa i fynd tuag at brosiect gwerth £4 miliwn ar draws Gymru a Lloegr

**Cwestiwn:** Gofynnodd Andrew Stumpf sut mae sicrhau ymrwymiad gwirfoddolwyr i brosiect adfer hirdymor.

**Ateb:** Llwyddiannau bychain sy'n bwysig. Manteisiwch ar frwdfrydedd tra ei fod yno. Ceisiwch ennyn brwdfrydedd y gymuned leol ac aelodau'r cyngor i ymgysylltu â'r prosiect fel coridor treftadaeth ac adfywio. Ceisiwch gynnwys cymaint o bobl ag y bo modd, er enghraifft, yn y prosiect odyn galch ychwanegol yn Llanymynech.

**Cwestiwn:** Gofynnodd Martin Buckle a fydd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn cymryd drosodd darnau o gamlas Monty (Mynwy) os ydynt yn cael eu hadfer.

**Ateb:** Mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen ar y dyfrffyrdd hyn beth bynnag, pa un a ydynt yn rhai mordwyol ai peidio.

Tynnwyd sylw'r rhai a oedd yn bresennol at y ddogfen 'Montgomery Canal: Regeneration through sustainable restoration' ('Camlas Maldwyn: Adfywio drwy adfer cynaliadwy'): https://goo.gl/ITVYd4

Roedd sleidiau'r cyflwyniad yn cynnwys sawl llun o gynnydd y gwaith adfer, y bywyd gwyllt a'r gwahanol rannau o'r gamlas. Cysylltwch ag emily.lewis@canalrivertrust.org.uk am gopi. Mae'r cyflwyniad hefyd ar gael yn llyfrgell y Senedd.

**Eitem 2: Cyflwyniad: Effaith adferiad Camlesi Droitwich, a gwblhawyd yn 2011 - Jason Leach, Rheolwr prosiect ar gyfer prosiect adfer Droitwich, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd**

Rhoddodd Jason Leach gyflwyniad ar brosiect adfer yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn Droitwich. Mae camlesi Droitwich erbyn hyn yn croesawu 380 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ar y llwybrau tynnu. Mae cyfran fechan yn gwsmeriaid yr Ymddiriedolaeth (e.e. cychwyr). Mae'r ymwelwyr hyn yn rhoi hwb i fusnesau lleol, gan gynnwys cwmnïau llogi cychod, tafarndai a chaffis.

Am bob person sy'n gweithio yn uniongyrchol yn y sector twristiaeth cychod craidd, mae yna 10 o swyddi ychwanegol a gefnogir yn yr economi ehangach drwy effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol gwariant y cychwyr a'r busnesau twristiaeth cychod.

Mae gwella hygyrchedd y llwybrau tynnu wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr ar draws rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth drwy ymestyn yr amser a ddefnyddir y llwybrau yn y gaeaf.

Trafodwyd nifer o astudiaethau achos, fel y gwaith adfer yn Bridgewater a Taunton a greodd 51 o swyddi o fewn y meysydd hamdden a thwristiaeth, gyda gwelliant gwerth eiddo amcangyfrifedig o £54 miliwn. Mewn sawl achos, dangoswyd bod datblygiad busnes a buddsoddiadau yn gysylltiedig â chamlesi wedi gweithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddiad ac adfywio.

Agorodd Camlesi Droitwich eto yn 2011, gyda 17 o filltiroedd o gamlas wedi'u gwella neu'u hadfer. Cysylltodd hyn Gaerwrangon a Birmingham â'r Afon Hafren i greu cylch, sydd hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan elusennau fel llwybr ar gyfer cystadlaethau. Gwelwyd hefyd gynnydd o 40% yn y defnydd o lwybrau tynnu, gyda chymorth gwelliannau o ran trefniadau parcio ceir. Cafodd trosedd ei ddadleoli i lefydd eraill, ac roedd mwy o ymdeimlad o le ac o gymuned. Agorwyd marina 239 angorfa yn Droitwich, ac roedd hyn yn fuddsoddiad sylweddol.

O ran gwelliannau amgylcheddol, creodd gwely cyrs 5 hectar newydd gynefin wedi'i reoli'n well ar gyfer bywyd gwyllt.

Nodwyd y byddai glasbrint ar gyfer prosiect adfywio llwyddiannus yn cynnwys:

- Integreiddio â pholisi cynllunio lleol
- Pwyslais ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- Datblygu partneriaeth gref gyda chynllun cyflenwi y cytunwyd arno gyda chamau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Pwysleisiwyd cred yn y prosiect hefyd.

**Cwestiwn:** Gofynnodd Martin Buckle a oedd cyflenwad dŵr erioed wedi bod yn broblem gyda gwaith adfer.

**Ateb:** Ddim ar gamlas Monty na Droitwich. Fodd bynnag, mae yna ddogfen Fframwaith Amgylcheddol sy'n darparu canllawiau. Linc 'Environmental framework for waterway restoration in England and Wales' ('Fframwaith amgylcheddol ar gyder adfer dyfrffyrdd yn Nghymru a Lloegr'): [http://bit.ly/2sbZftS](http://bit.ly/2sbZftS)

**Cwestiwn:** Gofynnodd Roger Holmes am brosiectau adfer sy'n dechrau gwaethygu eto.

**Ateb:** Mae angen ystyried cynaliadwyedd y prosiectau hyn, ac yn arbennig strwythurau a adferwyd. Rhan bwysig o sicrhau cyllid yw sicrhau bod yna grŵp lleol a fydd yn cymryd perchnogaeth ac yn cynnal y strwythurau a'r amgylchedd naturiol ar ôl i brosiect penodol gael ei gwblhau. Ychwanegodd John Dodwell fod yna amryw o ffyrdd gwahanol o barhau i gynhyrchu incwm e.e. teithiau cychod, a chyfeiriodd hefyd at Ymddiriedolaeth Camlesi Henffordd a Chaerloyw <http://www.h-g-canal.org.uk/> sydd nawr yn berchen ar eiddo i gynhyrchu incwm.

Nodwyd bod cyd-destun y Gronfa wedi newid hyd yn oed yn ystod y 12 mis diwethaf; gormod o geisiadau a llai o arian ar gael. Mae'n anodd cael cyllid ac mae ceisiadau Cam 2 yn cael eu gwrthod. Mae dibyniaeth ar y Gronfa yn bryder.

**Cwestiwn:** Gofynnodd Nick Worthington i'r siaradwr a yw'n disgwyl gweld ffrydiau cyllido amgen yn ymddangos ar ôl i'r cyllid Ewropeaidd ddod i ben.

**Ateb:** Ddim yn gwybod. Efallai y bydd y Llywodraeth yn ceisio'i ddisodli, ond bydd yn anodd.

Cyfeiriodd y siaradwr at y ddogfen 'Water Adds Value' ('Mae Dŵr yn Ychwanegu Gwerth'), a gynhyrchwyd gyda Phrifysgol Northampton. Linc: https://goo.gl/Ev1bWS

Mae'r cyflwyniad ar gael yn llyfrgell y Senedd. Cysylltwch ag emily.lewis@canalrivertrust.org.uk

**Eitem 3: Adborth a thrafodaeth**

Diolchodd Nick Ramsay AC i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau ac ymddiheurodd am fod yn hwyr oherwydd Cyfarfod Llawn hwy na'r disgwyl. Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol roi adborth ar y cyflwyniadau a rhannu eu syniadau o ran yr hyn y gall gwaith adfer dyfrffyrdd ei gynnig i gymunedau yng Nghymru.

**Cwestiwn:** Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol sut y mae annog cynulleidfa iau a mwy amrywiol i wirfoddoli yn y maes gwaith adfer.

**Ateb:** Dywedodd Martin Buckle mai'r flaenoriaeth yw ymgysylltu â phobl ifanc ar y cyfle cyntaf drwy ysgolion. Disgrifiodd Andrew Stumpf y cynllun 'Explorers', sef cynllun addysg cyfredol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer plant 7-11 oed (CA2), yn ogystal â'r cydgysylltydd STEM sydd yn gweithio gydag ysgolion. Nodwyd bod gan yr IWA a'r MBACT gynlluniau hefyd. Awgrymodd Jeremy Frost fod cynlluniau fel Eco-Sgolion ac Ysgolion Actif yn ffordd dda arall i ymgysylltu.

Nodwyd hefyd fod potensial i helpu popl ifanc i archwilio opsiynau gyrfa. Pwysleisiodd Gareth Williams bwysigrwydd cysylltu pethau â'i gilydd e.e. profiad gwaith trwy gymwysterau NVQ.

**Cwestiwn:** Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol ba ddulliau gweithredu y gall cynlluniau adfer gwledig eu defnyddio wrth geisio am gyllid.

**Ateb:** Dywedodd John Dodwell, siaradwr, fod swyddi yn ddadl dda, gan nodi bod 20% o gynnyrch domestig gros Cymru yn dod o dwristiaeth, Nodwyd na ddylai llefydd gwledig fod yn llefydd gwyliau neu fannau ymddeol yn unig. Er nad yw'r Gronfa yn mesur swyddi, mae arianwyr eraill yn gwneud hyn. Nodwyd swyddi a chyfleoedd hyfforddiant fel manteision i'w pwysleisio. Gall nifer fach o swyddi mewn cymuned wledig wneud gwahaniaeth mawr, yn enwedig os ydynt yn cadw cyfleusterau cymunedol yn fyw, fel tafarndai, siopau a swyddfeydd post.

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Andrew Stumpf**

Rhoddodd Andrew Strumpf y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynglŷn â chwblhau prosiect £2.538m Cronfa Buddsoddi yn Seilwaith Gwyrdd Mynwy a Aberhonddu yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd:

- 650m o gamlas wedi'i leinio. Nid yw'n gollwng mwyach;
- 3 pont a 2 traphont ddŵr wedi'u hatgyweirio;
- Economïau lleol wedi'u cefnogi – mae dros 50% yn dod o ffynonellau sydd o fewn 1 awr i'r safle. Roedd 87% o'r llafur ar y safle yn dod o Gymru;
- Gwelliannau amgylcheddol sylweddol;
- Cydnabyddiaeth bod y gamlas, yr afon a'r tir rhyngddynt yn rhannau o'r un ecosystem.

Mae cyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi adeiladu 3 phwynt mynediad newydd i wella mynediad i ganŵod yn Llangollen. Mae cod ymddygiad wedi'i ysgrifennu gyda'r bwriad o annog defnydd ystyriol ac i amlygu peryglon posibl wrth rwyfo ar y gamlas.

Wedi'i gyhoeddi'n Gymraeg ac yn Saesneg, mae 'Rhwyfo'n gywir' ar gael ar ffurf taflen ac ar lein: https://canalrivertrust.org.uk/enjoy-the-waterways/canoeing-and-kayaking

**Dyddiadau pwysig:**

- **Arddangosfa 'Navigations - Art as Research' – Oriel Davies, y Drenewydd**
  20 Mai – 19 Gorffennaf 2017
- **Gŵyl Camlas a Bwyd y Trallwng**
  22 Gorffennaf 2017
- **Canalathon – Mynwy ac Aberhonddu**
  9 Medi 2017
- **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol**
  26 Medi 2017

**Item 5: Unrhyw fater arall**

Ni gofnodwyd unrhyw fater arall.